Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL
County Borough Council

# Gweithio gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

Canllaw byr i gynorthwyo busnesau i ddeall sut y mae’r Cyngor yn gweithio.

Mae’r Cyngor yn gwario oddeutu £100 miliwn ar nwyddau, gwasanaethau a gwaith pob blwyddyn. Mae’r gwariant hwn yn angenrheidiol er mwyn darparu gwasanaethau cyhoeddus, lleol. Mae oddeutu 28 % yn cael ei wario’n lleol. Hoffai’r Cyngor gynyddu hyn er mwyn dwyn rhagor o fanteision economaidd, yn lleol.

Mae’r modd yr ydym yn contractio ac yn gwario wedi’u llywodraethu gan Ddeddfwriaeth. Wrth gyflawni ambell drothwy, mae’n rhaid i’r ddeddfwriaeth hon gael ei dilyn. Os yw’r trothwyau’n is, gallwn ddilyn ein Rheolau Caffael ein hunain.



**Merthyr Tudful**
**... lle i fod yn falch ohono**

# Dewis Darparwr

**Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg cryno o'r broses dendro**

## Cyrchu Cyfleoedd

Gweler ein cynllun https://www.merthyr.gov.uk/business/tenders-and-procurement/contracts-lists/

Mae tendrau naill ai'n cael eu hysbysebu ar GwerthwchiGymru / Sell2wales neu gwahoddir darparwyr i dendro neu gynnig amcanbris (yn ddibynnol ar gymhlethdod a gwerth.)

Cyhoeddir tendrau ar GwerthwchiGymru

## Dethol

Defnyddir cwestiynau dethol er mwyn asesu addasrwydd darparwyr (capasiti ariannol, galluogrwydd, profiad blaenorol, Iechyd a Diogelwch ac ati)

## Gwerthuso Tendr

Gwerthusir ansawdd a phris yn ddibynnol ar gymhlethdod a gwerth

(Gweler pethau i'w gwneud a pheidio â'u gwneud)

## Dyfarnu Contract

Hysbysir pob tendrwr o'r canlyniad er mwyn eu cynorthwyo i wella'u hymatebion yn y dyfodol

Cyhoeddir y Dyfarniad Contract ar GwerthwchiGymru

Mae contractau'n cael eu drafftio a'u harwyddo gan y ddau barti

Rheolir contractau'n unol â'r fanyleb

---




Mae'r Cyngor yn annog contractwyr i gofrestru â GwerthwchiGymru a eTenderWales. Mae'r ddau yn rhad ac am ddim ac yn caniatáu tendrwyr i dderbyn hysbysiadau ar e-bost, gweld cyfleoedd, diweddariadau a chynnal a chadw proffiliau, derbyn cyfarwyddiadau ar sut i gyrchu tendrau a gweld manylion ynghylch y Contractau a ddyfarnir.

Mae cofrestru'r categoriau busnes cywir yn bwysig er mwyn sicrhau eich bod yn derbyn cyfleoedd e-bost addas. Mae'n bwysig eich bod yn diweddaru proffiliau ac mae hyn yn cynnwys enw'ch busnes a'r hyn sydd ar eich anfonebau.

# Tipiau Tendro

## I'w gwneud

- Darllenwch y dogfennau'n ofalus er mwyn gwirio eich bod yn gymwys i ddarparu'r contract, cyn i chi gwblhau'r tendr.
- Gwiriwch y terfyn amser ar gyfer amser a dyddiad cyflwyno'r tendrau.
- Gofynnwch am esboniad os ydych yn ansicr ynghylch unrhyw beth. Dylech anfon unrhyw gwestiynnau ar system negeseuon eTenderWales neu GwerthwchiGymru.
- Atebwch bob cwestiwn yn glir gan nodi'r holl wybodaeth.
- Rhowch gost mor gywir â phosib i'r tendr.
- Gofynnwch am adborth.

## Peidio â'u gwneud

- Peidiwch â chyflwyno'ch tendr ar y funud olaf. Caniatewch ddigon o amser. Ni fydd ceisiadau hwyr yn cael eu derbyn.
- Peidiwch â chynnwys dogfennaeth amherthnasol na ofynnwyd amdani.
- Peidiwch â chymryd yn ganiataol ein bod yn eich adnabod fel tendrwr gan y byddwn yn gwerthuso ar sail yr hyn sydd yn cael ei gyflwyno, yn unig.
- Peidiwch â chael eich digalonni gan ddogfennaeth dendro. Gofynnwch am gymorth gan Busnes Cymru neu MTEC.
- Peidiwch â chyflwyno prisiau nad sydd yn gredadwy.
- Peidiwch ag anghofio anfon pob dogfen y gofynnir amdani yn y dogfennau tendro.

Yswiriant

Bydd angen i bob busnes sydd yn gweithio â'r Cyngor feddu ar yswiriant priodol. Bydd ein tendrau'n nodi pa fathau a pha lefelau o yswiriant sydd eu hangen.

# Rheoli Carbon




Mae'r Cyngor yn ymroddedig i ddyfod yn garbon net sero erbyn 2030. Mae dros dwy ran o dair o'n ôl-troed carbon wedi'u cynnwys oddi fewn i allyriadau sgôp 3 (cadwyn gyflenwi.)

Bydd y Cyngor yn canolbwyntio ar leihau'r ôl-troed carbon yn ein cadwyni cyflenwi. Bydd disgwyl i'r darparwyr gyflwyno eu cynlluniau rheoli carbon ac arddangos sut y gall y targedau gael eu cyflawni. Byddwn yn cydweithio â'n darparwyr i gofnodi'r ôl-troed carbon blynyddol â'r nod yw cyflawni net sero yn y gadwyn gyflenwi.

Gall Tîm Adfywio'r Cyngor ddarparu cymorth ac maent yn awyddus i gydweithio â BBaCh ar Addewid Dadgarboneiddio a mentrau Net Sero. Gweler yr Adran Cysylltiadau a Dolenni Pwysig ar gyfer cyfeiriad e-bost.

# Safonau Caffael




Mae'n gweithdrefnau dethol yn ceisio sicrhau safonau ymddygiad foesol gan ein darparwyr. Byddwn yn gofyn i chi gydymffurfio â materion fel

- Caethwasiaeth Fodern
- Materion y Gweithlu
- Ffynhonellau Dur
- Llwgrwobrwyo
- Yr Iaith Gymraeg
- Gofynion Seibr



# Deilliannau Llesiant

Mae’r Cyngor yn ymroddedig i ehangu ar fuddiannau cymunedol sydd fel arfer yn cael eu darparu drwy gontractau adeiladu mawr.

Mae Deilliannau a Mesurau Themâu (TOM) yn gysylltiedig â’n Deilliannau Llesiant. Mae TOM yn caniatáu i ni fesur gwerth cymdeithasol contract yn ychwanegol i’r gost o ddarparu nwyddau, gwasanaethau neu waith.

Bydd disgwyl i’n darparwyr ddarparu deilliannau llesiant drwy’n Contractau ar werthoedd penodol. Maent yn cynnwys creu swyddi, cynnal swyddi, lleihau’r ôl-troed carbon, cyfleoedd hyfforddi, cyfraniadau i gronfeydd cymdeithasol ac ati.

# Cysylltiadau a Dolenni Pwysig

Ymholiadau Cyffredinol
Procurement@merthyr.gov.uk
businessdecarbonisation@merthyr.gov.uk

Dolenni
https://etenderwales.bravosolution.co.uk
https://www.sell2wales.gov.wales
https://www.merthyr.gov.uk/business/tenders-and-procurement/
http://mtec3.co.uk/
https://businesswales.gov.wales/